**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF/FM/0599/13

David Melding AC
Cadeirydd
Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

16eg Ebrill 2013

Annwyl David,

**Pwyllgor y Cyfarfod ar 27 Chwefror 2013 - Uned Gyflawni'r Prif Weinidog**

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am fwy o wybodaeth ac eglurhad ynghylch nifer o faterion a gododd yn ystod y sesiwn graffu uchod. Byddaf yn ymateb ar wahân ar y materion yn ymwneud â thlodi plant.

*Mesurau llwyddiant yr Uned Gyflawni*

Rwy'n deall yr hoffai'r Pwyllgor gael gwybod mwy ynghyn â’r ffordd y mae'r Uned Gyflawni'n gweithredu a'i fod o'r farn y dylid monitro'i pherfformiad yn barhaus. Nid ydw i’n credu y byddai’n briodol nac yn arwyddocaol i geisio cymhwyso fframwaith perfformiad gwrthrychol i'w gwaith na gwneud yr Uned Gyflawni yn gyfrifol am berfformiad eraill. Mae'r Uned yn gweithio ochr yn ochr â Gweinidogion a'u hadrannau i helpu i sicrhau bod polisïau allweddol yn cael eu cyflawni mewn ffordd sy'n effeithiol ac amserol. Byddai unrhyw ymgais i fesur effaith ymyriadau penodol sydd wedi digwydd, neu welliannau y mae'r Uned wedi'u cyflwyno, yn gwbl oddrychol.

Fel y dywedais yn ystod cyfarfod y Pwyllgor, cyfrifoldeb i holl Weinidogion Cymru a'u hadrannau yw cyflawni, ond fel y Prif Weinidog mae gen i gyfrifoldeb cyffredinol. I gefnogi'r swyddogaeth hon, mae angen ffordd arnaf o gael barn, cyngor a gwybodaeth rhydd ac agored mewn fforwm trafod preifat. Mae'r Uned Gyflawni yn galluogi hyn, gan roi safbwynt diduedd i mi o’r adrannau fel fy mod yn gallu barnu sut mae polisïau yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn fy ngalluogi i fonitro perfformiad a gwneud Gweinidogion a'u hadrannau yn atebol, yn enwedig lle'r ymddengys bod rhwystrau rhag cyflawni. O ran yr agwedd hon ar waith yr Uned Gyflawni, fy nghyfrifoldeb i yw penderfynu a yw'n cyflawni'r rôl y gosodais iddi.

Grŵp Cyflawni'r *Rhaglen Lywodraethu*

Yr Ysgrifennydd Parhaol yw cadeirydd Grŵp Cyflawni'r Rhaglen Lywodraethu, ac mae'r aelodau craidd yn cynnwys y Cyfarwyddwyr Cyffredinol, y Cyfarwyddwr Llywodraethu, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, y Pennaeth Cyllidebu Strategol a Phennaeth yr Uned Gyflawni. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob mis.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 060 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 060 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198
ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk

Mae Cyfarwyddwyr Cyffredinol yn gyfrifoldeb am gyflawni'r canlyniadau a'r ymrwymiadau hynny yn y Rhaglen Lywodraethu sydd yn eu meysydd hwy. Fodd bynnag, cydnabu'r Ysgrifennydd Parhaol fod angen gwella'r ffordd y mae'r 'gwaith trwm' o ran cyflawni trawsadrannol wedi'i alinio i gefnogi'r Uned Gyflawni.

Felly bydd y Grŵp Cyflawni yn ceisio gwneud gwahaniaeth drwy:

- Gefnogi cynnydd ar faterion lle mae angen i adrannau gydweithio i gyflawni mewn ffordd gydlynus yn erbyn y Rhaglen Lywodraethu;
- Cefnogi'r gyllideb a'r broses gynllunio ar adegau cyllidol allweddol drwy gynnig cyfrwng ar gyfer ystyried dyrannu adnoddau ar gyfer y Rhaglen Lywodraethu ar y cyd mewn ffordd sy'n sicrhau bod cysylltiad rhwng cynlluniau a chanlyniadau;
- Craffu ar lefel uchel ar gynnydd yn erbyn y Rhaglen Lywodraeth yn gyffredinol;
- Ystyried adroddiadau dadansoddi unigol a gomisiynir gan y Grŵp neu gennyf i drwy'r Uned Gyflawni.

*Profiad y staff sy'n gweithio yn yr Uned Gyflawni*

Mae gan y staff sy'n gweithio yn yr Uned Gyflawni gyfuniad eang o sgiliau a chefndiroedd, ond nid ydynt yn archwilwyr. Fel y dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol yn ystod y sesiwn graffu, caiff Llywodraeth Cymru ei harchwilio'n drylwyr eisoes ac ni fyddai archwilio ychwanegol gan yr Uned Gyflawni yn cynnig gwerth. Mae'r Uned Gyflawni yn ychwanegu gwerth drwy gynnig safbwynt newydd a sicrhau bod adrannau'n cyflawni polisi mewn ffordd gytbwys. Mae'r tîm yn gwneud hyn drwy herio mewn ffordd wrthrychol, ac rwy'n dibynnu arnynt i nodi arferion neu brosesau sy'n atal, neu a allai atal, y gwaith o gyflawni.

Er bod gan bob aelod o'r Uned arbenigedd o ran llunio polisi, a phrofiad o werthuso neu adolygu, maen nhw hefyd wedi cyflawni'n llwyddiannus mewn amgylchedd gweithredol lle'r oedd yn ofynnol iddynt ddangos crebwyll a sgiliau sefydlog. Cawsant eu dewis yn ôl cryfder eu profiad, eu perfformiad unigol a'u dealltwriaeth o'r heriau cyflawni. Mae hefyd yn werth nodi bod gan bob un gefndir o sefydlu'u hygrededd a dylanwadu ar uwch swyddogion. Maent yn gweithio ochr yn ochr ag adrannau mewn ffordd adeiladol a chadarnhaol, yn hytrach na'u bod yn gwrthdaro â nhw.

*Adroddiad  blynyddol y Rhaglen Lywodraethu*

Rôl yr Uned Gyflawni yw dadansoddi'r wybodaeth am berfformiad yn yr adroddiad blynyddol a nodi meysydd lle mae angen craffu, cymorth a her i helpu i sicrhau bod pob rhan o Lywodraeth Cymru yn cyflawni mewn ffordd amserol ac effeithiol.

Nid yw'r Uned Gyflawni'n golygu'r adroddiad blynyddol nac yn nodi'r dangosyddion a'r mesurau a ddylai fod ynddo – yr adrannau sy'n gyfrifol am hynny. Mae'r adroddiad blynyddol yn giplun o foment yn ein cynnydd o ran cyflawni'r camau gweithredu a'r canlyniadau allweddol ar draws y Rhaglen Lywodraethu yn ei chyfanrwydd. Er ei bod yn swnio'n dda cael nifer lai o ddangosyddion, byddai'n tanseilio'n hymrwymiad i fod yn agored a thryloyw. Felly, y peth pwysicaf yw gwneud yr adroddiad yn haws ei ddefnyddio, ac rydyn ni'n bwriadu cyflawni hyn.

Rydyn ni'n cydnabod bod cyfoeth o wybodaeth yn adroddiad blynyddol y Rhaglen Lywodraethu, ac y gall fod yn her pori drwyddi i gyd. Rydyn ni felly'n newid fformat yr adroddiad blynyddol eleni i fersiwn haws ar y we a fydd:

Yn galluogi defnyddwyr i hidlo'r wybodaeth yn fwy effeithiol fesul pennod, maes polisi neu gam gweithredu;

Yn caniatáu rhoi dangosyddion tebyg mewn grwpiau ac adrodd arnynt gyda'i gilydd, fel prif fesurau tlodi. Bydd hyn yn gwneud y adroddiad yn llai, heb effeithio ar faint o wybodaeth sydd ynddo;

Yn cyfeirio defnyddwyr at wybodaeth ar ddangosyddion cysylltiedig. Er enghraifft, pe byddech yn edrych ar y prif benawdau tlodi, byddech yn cael eich annog i edrych ar y data yn ein rhaglenni trechu tlodi allweddol, fel Dechrau'n Deg.

Bydd y newidiadau hyn yn ei gwneud yn haws pori drwy'r wybodaeth er mwyn gallu'i chwestiynau a'i hystyried.

Yn gywir

**CARWYN JONES**